



**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF  
PWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 4 Rhagfyr 2018 am 5.00 pm ym Council Chamber, The Pavilions, Cambrian Park. Clydach Vale, Tonypany, CF40 2XX.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trwyddedu Aelodau oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cynghorydd D Williams    Y Cynghorydd S Bradwick  
Y Cynghorydd S Powderhill    Y Cynghorydd E Webster  
Y Cynghorydd W Lewis    Y Cynghorydd S Morgans  
Y Cynghorydd P Howe

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms L Davies, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd  
Mr R Waters, Cyfarwyddwr Gwasanaeth -Priffyrdd a Gofal y Strydoedd  
Mr G Black, Rheolwr Cymunedau Diogel a Thrwyddedu  
Mr P Nicholls, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Gwasanaethau  
Mr M Owen, Rheolwr trwyddedu Cynorthwyol  
Mr N Evans, Swyddog Gorfodi Trwyddedu  
Mr A Pitt - Heddlu De Cymru

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol**

Y Cynghorydd R Lewis

**30 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol T. Williams, A. Cox ac L. Jones.

**31 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**32 Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Ddeddf Trosedd ac Anrhefn**

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anrhefn.

**33 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Hydref, 2018 yn rhai cywir.

**34 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**35 Ystyried y ceisiadau canlynol ar gyfer Trwyddedu a/neu Gofrestru:**

Rhoddodd Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd fanylion y cais canlynol ar gyfer adolygu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr A.A. o Gaerdydd ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais am adolygiad o Drwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat ger bron y Pwyllgor.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad a'r dystiolaeth ger eu bron, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor atal y Drwydded Yrru ar y Cyd Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat fel mesur cosb am gyfnod o ddau fis.

(**Noder:** Cyn i'r Ymgeisydd adael y cyfarfod, pwysleisiodd y Cadeirydd fod angen rhoi sylw dyledus i'r rhybudd a oedd wedi ei roi gan y Pwyllgor oherwydd gallai methu â gwneud hynny effeithio ar benderfynu ar geisiadau yn y dyfodol.)

**36 Crynodeb Gorfodi (Gan Gynnwys Data Apeliadau/Erlyniadau) ar gyfer y cyfnod 06.10.18 - 23.11.18**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd ei adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod 6 Hydref, 2018 tan 23 Tachwedd, 2018.

Ar ôl i'r Pwyllgor drafod yr adroddiad **PENDERFYNWYD** nodi'r cynnwys.

**37 Crynodeb o'r Trwyddedau a gyhoeddwyd o dan Ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 01.10.18 - 18.11.18**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd ei adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod 1 Hydref, 2018 tan 18 Tachwedd, 2018.

Ar ôl i'r Pwyllgor drafod yr adroddiad **PENDERFYNWYD** nodi'r cynnwys.

38

**Trafod yr Apeliadau Canlynol yn erbyn Gwrthod Caniatáu eu Defnyddio fel Personél Cludiant Contract:**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Materion y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd fanylion y ceisiadau canlynol i fod yn Personél Cludiant dan Contract ar gludiant ysgolion, gwasanaethau cymuned a chontractau cysylltiedig eraill ar gyfer cludiant.

Yn unol â gweithdrefnau mabwysiedig, derbyniodd yr Aelodau yr Ymgeiswyr canlynol yn eu tro er mwyn ystyried yr apeliadau i fod yn Personél Cludiant dan Contract.

- Miss K.H. - Tonyrefail
- Mr L.S. - Y Porth

Yn dilyn ystyried yr adroddiad a'r dystiolaeth ger bron y Pwyllgor **PENDERFYNWYD** gwrthod yr apeliadau, gan gadarnhau bod Miss K.H. a Mr L.S. yn anaddas i fod yn Personél Cludiant dan Contract.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.25 pm**

**Y Cynghorydd A Fox  
Cadeirydd.**